Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

**Atodiad GA35**

# Meini Prawf Marcio Asesiadau ar gyfer Dyfarniadau a Addysgir (lefelau 3-7)

## Cyflwyniad

Mae’r fframwaith meini prawf asesu generig a nodir isod yn disgrifio’r math o ddysgu y disgwylir i fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a myfyrwyr ei phartneriaid cydweithredol ei arddangos ar bob lefel o ddysgu o fewn addysg uwch (AU), gan gynnwys wrth baratoi ar gyfer AU. Datblygwyd y meini prawf ar gyfer pob lefel astudio’n unol â disgwyliadau *The Frameworks for Higher Education Qualifications of UK Degree-Awarding Bodies* (2014) gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (2009). Mae hyn yn unol â dangosydd *Quality Code* yr ASA (diwygiwyd, Mai 2018) fod y darparwr yn defnyddio ‘assessment and classification processes that are reliable, fair and transparent’. Mae’r meini prawf yn rhai generig ac yn berthnasol i ystod eang o ddisgyblaethau academaidd. Serch hynny, anogir tiwtoriaid modylau neu feysydd disgyblaethau i ychwanegu at y meini prawf generig â meini prawf sy’n benodol ar gyfer yr asesiad a’r pwnc penodol.

Nodau’r fframwaith generig yw darparu’r canlynol:

(i) disgrifiad o’r hyn y mae angen i fyfyriwr ei wneud i gyrraedd categori dosbarth penodol (cyn cyflwyno gwaith);

(ii) pwynt cyfeirio ar gyfer mynegi safon gwaith myfyriwr ar lefel astudio benodol (ar ôl cyflwyno gwaith), a thrwy hynny ei helpu i ddynodi sut y gallai wella’i berfformiad yn y dyfodol;

(iii) arwydd o’r dilyniant sgiliau a’r datblygiad y disgwylir i fyfyrwyr eu cyflawni ar hyd eu rhaglen astudio;

(iv) sail ddibynadwy, gyson, deg a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau marcio.

Mae’r fframwaith yn defnyddio pum categori sgiliau ar gyfer dysgu:

1. sgiliau ymgysylltu â llenyddiaeth;
2. sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth;
3. sgiliau gwybyddol a deallusol;
4. sgiliau ymarferol; a
5. sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol.

Mae pob categori sgiliau wedi'i fapio i'r bandiau dosbarth safonol (e.e. 1af, 2.1, 2.2, neu Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth, ac ati) i ddisgrifio'r perfformiad disgwyliedig o ran sgiliau ymhob un o'r pum categori ar gyfer band dosbarth penodol.

**Defnyddio'r Meini Prawf Generig**

Dylid asesu gwaith myfyrwyr yn unol â meini prawf asesu cyhoeddedig. Mae'r meini prawf yn disgrifio nodweddion allweddol a phriodoleddau cyffredinol gwaith a aseswyd sy'n gysylltiedig â chategori dosbarth ar gyfer lefel astudio benodol. Wrth farcio gwaith myfyriwr, efallai y bydd yn ddefnyddiol i diwtoriaid fynd i'r afael â'r meini prawf yn uniongyrchol, gan gylchu neu liwddangos y lefel cyrhaeddiad a ddangosir o fewn y gwaith, fel y bo'n briodol i'r lefel. Felly wrth ystyried sgiliau cyfeirnodi (o fewn y categori *Ymgysylltu â Llenyddiaeth*), gallai tiwtoriaid gylchu '*Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau'*. Pan fydd yr holl feini prawf perthnasol wedi'u cylchu, bydd hyn yn fodd i ddynodi'r band dosbarth penodol.

Fodd bynnag, gall meini prawf generig ddarparu cyfarwyddyd eang yn unig ar gyfer asesu. Yn aml, ni fydd myfyrwyr yn cyflawni perfformiad o ran sgiliau sy'n gyson eglur ac yn bodloni holl ddisgwyliadau band dosbarth penodol, a gallant arddangos perfformiad cryfach yng nghyswllt rhai meini prawf asesu nag eraill. Egwyddor ddefnyddiol wrth gymhwyso'r meini prawf yw chwilio am y dosbarth sy'n gweddu orau. Er enghraifft, gall aseiniad myfyriwr ddangos un neu ddwy o nodweddion y band 70-84% a llawer o nodweddion y band 60-69%, ond efallai nad yw'n llwyddo i gyrraedd safon band 60-69% mewn un neu ddau faes. Mae'n debygol y bydd yr hyn sy'n gweddu orau yn yr achos hwn o fewn y dosbarth 60-69%.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall tiwtoriaid 'bwysoli' pob categori sgiliau'n wahanol, yn ddibynnol ar y math o asesiad. Mae'n debygol y bydd asesiad ymarferol iawn sy'n gofyn i fyfyrwyr arddangos cymhwyso sgiliau'n ymarferol yn dyrannu canran gymharol uchel o farciau i'r categori 'Sgiliau Ymarferol'. Mae'n debygol y bydd traethawd yn seiliedig ar ymchwil sy'n gwerthuso cysyniadau'n dyrannu canran gymharol uchel o farciau i'r categori 'Sgiliau Gwybyddol a Deallusol' ac efallai ychydig o farciau, os rhai o gwbl, i'r categori 'Sgiliau Ymarferol'. Nid yw'n ofynnol asesu sgiliau o bob categori ymhob asesiad unigol.

Dylid ystyried hefyd ei bod yn annhebygol y bydd un asesiad myfyriwr yn ddigon gymhleth i fodloni'r holl feini prawf a nodir ar gyfer lefel cyrhaeddiad benodol; nid oes angen i bob asesiad roi tystiolaeth o bob maen prawf o fewn band dosbarth er mwyn i fyfyriwr ennill marciau yn y band hwnnw: mae egwyddor yr hyn sy'n gweddu orau'n berthnasol. Fodd bynnag, o gyflawni'r dyfarniad llawn ar lefel benodol ar ôl cyfuno'r holl asesiadau, dylai myfyrwyr fod wedi gallu arddangos dysgu ar y lefel briodol ym mhob un o'r categorïau sgiliau.

Dylai tiwtoriaid ddefnyddio'r ystod farcio gyfan, gan ddehongli'r meini prawf yng nghyd-destun eu disgyblaeth eu hun. Dylai marc terfynol y gwaith bob amser ystyried y meini prawf asesu cyhoeddedig a bydd yn fater o farn academaidd. Pan fydd gofynion CRSRh neu ofynion rhaglen benodol yn wahanol i normau'r Brifysgol, dylid darparu meini prawf marcio ychwanegol ar gyfer y myfyrwyr.

| Lefel 3 (Blwyddyn Sylfaen) |
|---|
| Llunnir darpariaeth ar Lefel 3 (sy'n aml yn rhan o gwrs Blwyddyn Sylfaen) i baratoi myfyrwyr am addysg uwch. Ar ddiwedd Lefel 3, disgwylir i fyfyrwyr arddangos eu bod wedi caffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth lefel sylfaen sy'n angenrheidiol ar gyfer cychwyn ar raglen astudio addysg uwch ar Lefel 4. Yn unol â Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru (FfCChC), mae hyn yn cynnwys y gallu i ddynodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n fanwl, â rhywfaint o gymhlethdod. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau'n ogystal ag arfer ymreolaeth a barn o fewn paramedrau cyfyngedig. Mae hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ymagweddau o fewn maes astudiaeth neu faes gwaith. |

| Lefel 3 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA (Llwyddo) | DA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%*** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **Ymgysylltu â llenyddiaeth** (yn cynnwys cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Tystiolaeth gyfyngedig o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Ymgysylltu cyfyngedig â gwybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd gwael iawn o gyfeirnodi. | Ymgysylltu gwael â llenyddiaeth a fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi. | Tystiolaeth o ddarllen, ond yn gyfyngedig yn bennaf i wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Gall y cyfeirnodi ddangos anghywirdebau a / neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod briodol o ddarllen y tu hwnt i wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o ddarllen perthnasol. Cymhwyso cyfeirnodi'n raenus, heb unrhyw anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu beirniadol ag ystod eang o ddarllen perthnasol. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. | Ymgysylltu beirniadol eithriadol ag ystod eang iawn o ddarllen perthnasol. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** (Gwybodaeth a dealltwriaeth ffeithiol, weithdrefnol a damcaniaethol gychwynnol o gysyniadau ac egwyddorion | Gwybodaeth a dealltwriaeth gychwynnol wan a diffygiol o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc/pynciau, er | Dengys y gwaith ddealltwriaeth gyfyngedig ond darniog o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc/pynciau. | Ymagwedd ffeithiol yn dangos dealltwriaeth o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc/pynciau, | Gwaith da'n dangos dealltwriaeth o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc/pynciau, sy'n golygu bod | Gwaith o ansawdd cadarn yn dangos dealltwriaeth gymwys a chyson o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol | Gwaith o ansawdd uchel yn dangos dealltwriaeth fanwl o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y | Gwaith o ansawdd uchel eithriadol yn dangos dealltwriaeth fanwl iawn o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol |

| Lefel 3 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA (Llwyddo) | DA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%*** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| gwaelodol sylfaenol y pwnc; rhywfaint o werthfawrogiad o ehangder y maes astudio a'r derminoleg berthnasol) | enghraifft mae anghywirdebau sylweddol, mae'n cynnwys swm sylweddol o ddeunydd amherthnasol a / neu mae gwybodaeth / deunydd priodol yn absennol. | Ceir anghywirdebau, mae'n cynnwys deunydd amherthnasol a / neu mae gwybodaeth / deunydd priodol yn absennol. | sy'n golygu bod y myfyrwyr ar y cyfan wedi'u paratoi i astudio ar Lefel 4. Detholiad cul neu gyfeiliornus o beth deunydd, gydag elfennau ar goll neu'n anghywir. | y myfyrwyr wedi'u paratoi i astudio ar Lefel 4, ond yn ddiffygiol o ran manylder ac ehangder. | sylfaenol y pwnc/pynciau, sy'n golygu bod y myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda i astudio ar Lefel 4. | pwnc/pynciau, sy'n golygu bod y myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda iawn i astudio ar Lefel 4. | sylfaenol y pwnc/pynciau, sy'n golygu bod y myfyrwyr wedi'u paratoi'n eithriadol o dda i astudio ar Lefel 4. |
| **Sgiliau gwybyddol a deallusol** (Gwerthuso cychwynnol; rhesymeg, dadl a barn o fewn paramedrau cyfyngedig; trefnu syniadau a thystiolaeth; rheoli gwybodaeth a chasglu data o ystod o ffynonellau syml; ymwybyddiaeth o safbwyntiau neu ymagweddau gwahanol o fewn maes astudio). | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n wan iawn, gan arwain at waith disgrifiadol sy'n aml yn afresymegol, yn annilys neu'n amherthnasol. Dim ymgais i reoli / cysylltu â gwybodaeth a syniadau o ffynonellau syml. Nid yw'n datblygu dadl na barn o fewn paramedrau cyfyngedig. Fawr ddim ymwybyddiaeth | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n wan ac ar brydiau'n ddiffygiol. Ymgais cyfyngedig i reoli / cysylltu â gwybodaeth a syniadau o ychydig iawn o ffynonellau syml, gan arwain at waith disgrifiadol sy'n datblygu dadl a/neu farn wan o fewn paramedrau cyfyngedig. Dengys ddiffyg ymwybyddiaeth o'r safbwyntiau | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n gyfyngedig ond yn ddigonol. Rhywfaint o ymgais i reoli / cysylltu â gwybodaeth a syniadau o ychydig o ffynonellau syml. Rhywfaint o ymgais i ddatblygu dadl a barn o fewn paramedrau cyfyngedig ond mae'r gwaith yn ddisgrifiadol ar y cyfan gan dderbyn | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n dda. Dynoda gysylltiadau mewn gwybodaeth a syniadau o ychydig o ffynonellau syml i ddatblygu dadl a barn sy'n rhesymegol ar y cyfan o fewn paramedrau cyfyngedig, er nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn mannau. Dengys ymwybyddiaeth o'r safbwyntiau | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n dda iawn. Dynoda gysylltiadau mewn gwybodaeth a syniadau o amrywiaeth o ffynonellau syml i ddatblygu dadl a barn sy'n gydlynol ar y cyfan o fewn paramedrau cyfyngedig. Dengys y gwaith ymwybyddiaeth raenus o'r safbwyntiau neu ymagweddau gwahanol o fewn | Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau'n rhagorol. Gall ddynodi, cysylltu a choladu gwybodaeth a syniadau'n dda o amrywiaeth o ffynonellau syml. Â'r gallu i ddatblygu dadl a barn resymegol a chydlynol iawn o fewn paramedrau cyfyngedig. Dengys y gwaith ymwybyddiaeth gadarn o'r safbwyntiau neu ymagweddau | Mae wedi datblygu ymagwedd feirniadol a gwerthusol iawn at wybodaeth a syniadau ar gyfer y lefel hon. Gall goladu a chategoreiddio syniadau a gwybodaeth â mewnwelediad. Â'r gallu i ddatblygu dadl a barn gydlynol dros ben o fewn paramedrau cyfyngedig sy'n eithriadol ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad. Dengys y gwaith |

| Lefel 3 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA (Llwyddo) | DA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%*** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | o'r safbwyntiau neu ymagweddau gwahanol o fewn y pwnc. | neu ymagweddau gwahanol o fewn y pwnc. | gwybodaeth / data'n anfeirniadol. Dengys ymwybyddiaeth gynyddol o'r safbwyntiau neu ymagweddau gwahanol o fewn y pwnc. Dadleuon a barn afresymegol mewn mannau gyda rhai anghywirdebau. | neu ymagweddau gwahanol o fewn y pwnc. Mân anghywirdebau | y pwnc. | gwahanol o fewn y pwnc. | ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r safbwyntiau neu ymagweddau gwahanol o fewn y pwnc. |
| **Sgiliau ymarferol** (Dynodi, dewis a defnyddio sgiliau, dulliau a gweithdrefnau priodol yn achos problem a ddiffiniwyd yn fanwl a dangos cydnabyddiaeth gynyddol o gymhlethdod materion cysylltiedig; llunio atebion i ddatrys problemau a ddiffiniwyd yn fanwl; defnyddio ymchwiliad priodol i lywio | Dim tystiolaeth o allu i gysylltu theori ag arfer. Offer, dulliau neu dechnegau wedi'u cam-gymhwyso. Sgiliau gwan iawn wrth ddatrys problemau a ddiffiniwyd yn fanwl. | Fawr ddim tystiolaeth o allu i gysylltu theori ag arfer. Offer, dulliau neu dechnegau wedi'u cam-gymhwyso ar y cyfan. Sgiliau gwan wrth ddatrys problemau a ddiffiniwyd yn fanwl. | Dengys ddealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso gwybodaeth yn ymarferol. Efallai nad yw ymatebion yn hollol briodol a/neu ystyrlon. Defnyddia offer, dulliau neu dechnegau i raddau cyfyngedig neu â rhywfaint o gam-gymhwyso. Gall gynnig atebion sylfaenol | Ymgais rhesymol i gymhwyso theori mewn cyd-destunau ymarferol. Mae ymatebion yn briodol a / neu'n ystyrlon ar y cyfan. Defnyddir offer, dulliau neu dechnegau'n briodol. Gall gynnig atebion sylfaenol sy'n briodol ar y cyfan i broblemau a | Gall gymhwyso gwybodaeth am theori i gyd-destunau ymarferol a llunio ystod o ymatebion i sefyllfaoedd penodol. Defnyddir offer, dulliau neu dechnegau'n dda iawn. Gall gynnig atebion priodol i broblemau a ddiffiniwyd yn fanwl gyda chydnabyddiaeth | Gall lunio ystod o ymatebion priodol i broblemau penodol, y gall rhai ohonynt fod yn eithaf arloesol ar gyfer y lefel; cysylltiadau da rhwng theori ac arfer. Cymhwyso offer, dulliau neu dechnegau'n rhagorol. Gall gynnig atebion rhagorol i broblemau a ddiffiniwyd yn | Gall lunio ystod o ymatebion effeithiol i broblemau penodol, y gall rhai ohonynt ddangos arloesi a chryn dipyn o fewnwelediad sy'n anghyffredin ar y lefel hon; cysylltiadau eithriadol o dda rhwng theori ac arfer. Cymhwyso offer, dulliau neu dechnegau'n eithriadol. Gall gynnig atebion |

| Lefel 3 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA (Llwyddo) | DA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%*** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| gweithredoedd; adolygu effeithiolrwydd dulliau a gweithredoedd). | | | i broblemau a ddiffiniwyd yn fanwl heb gydnabyddiaeth gynyddol o'r cymhlethdod. | ddiffiniwyd yn fanwl gyda rhywfaint o gydnabyddiaeth gynyddol o'r cymhlethdod. | gynyddol o'r cymhlethdod. | fanwl gyda chydnabyddiaeth gynyddol o'r cymhlethdod. | eithriadol i broblemau a ddiffiniwyd yn fanwl gyda chydnabyddiaeth gynyddol o'r cymhlethdod. |
| **Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol** (Cwblhau tasgau a gweithdrefnau: yn unigol a / neu'n gydweithredol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.) | Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, yn anghywir, yn anghydlynol, yn anghyflawn a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwael iawn o iaith a/neu'r cyfrwng cyfathrebu. Yn methu gweithio'n effeithiol yn rhan o grŵp. Arddangosir dim/fawr ddim rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer gwaith. | Strwythur gwan, digyswllt. Mae'r deunydd yn anghydlynol neu wedi'i fynegi'n wael mewn mannau. Gwallau sillafu a gramadegol difrifol neu helaeth, arddull amhriodol iawn a/neu ddefnydd gwan o'r cyfrwng. Ymagwedd ddiffygiol at waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaethau rhannol i eraill yn unig. Dengys rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer gwaith i | Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan er gall fod yn wan a/neu'n anghyson mewn mannau ac â diffyg datblygiad dilyniannol. Mynegir syniadau / cysyniadau'n ddigonol ond gyda gwallau sillafu / gramadeg. Defnydd addas ar y cyfan o'r cyfrwng cyfathrebu, er gyda lle i wella. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau i bobl eraill ond | Mae'r gwaith yn gydlynol ac yn drefnus ar y cyfan er gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau a gall fod mân wallau yn y gwaith. Mynegir syniadau / cysyniadau'n eglur gan ddefnyddio cyfryngau'n briodol. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Dengys rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy | Mae'r strwythur yn gydlynol, yn drefnus ac yn rhesymegol gan ddangos dilyniant a llif. Mynegir syniadau / cysyniadau'n eglur iawn gan ddefnyddio cyfryngau'n briodol. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Dengys yn dda'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen | Gwaith trefnus iawn sy'n datblygu llif a dilyniant mewn modd sydd â strwythur da. Mynegir syniadau / cysyniadau'n rhugl gan ddefnyddio cyfryngau'n briodol iawn. Dynoda'r arddull academaidd lefel briodol o aeddfedrwydd academaidd. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau rhagorol at weithgareddau grŵp. Dengys | Gwaith eithriadol o drefnus sy'n datblygu llif a dilyniant mewn modd sydd â strwythur da. Lefel uchel o rugl der mynegiant drwyddi draw, gan ddefnyddio cyfryngau'n dda i gyfoethogi'r gwaith. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eithriadol at weithgareddau grŵp. Dengys ystod ragorol o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy |

| Lefel 3 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA (Llwyddo) | DA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%*** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | | raddau cyfyngedig. | efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Dengys ychydig o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer gwaith. | sydd eu hangen ar gyfer gwaith i raddau da. | ar gyfer gwaith. | ystod eang o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer gwaith. | sydd eu hangen ar gyfer gwaith. |

## Lefel 4

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 4 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi arddangos gwybodaeth am gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc, ynghyd â gallu i werthuso a dehongli'r rhain yng nghyd-destun y maes astudio hwnnw. Dylent allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â damcaniaethau a chysyniadau sylfaenol eu pwnc/pynciau astudio. Byddant wedi dysgu sut i werthuso dulliau gwahanol o ddatrys problemau, a byddant yn gallu cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth/gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol.  Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach a datblygu sgiliau newydd o fewn amgylchedd strwythuredig a rheoledig a bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol.

| Lefel 4 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **Ymgysylltu â llenyddiaeth** (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol. | Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol.  Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach.  Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gysyllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi. | Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan ond â rhywfaint o ddibyniaeth ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth.  Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro. | Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau'n hytrach na ffynonellau eraill. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Cyfeirnodi graenus ar y cyfan, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. | Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnodi lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson. |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** | Bylchau mawr yn y wybodaeth | Bylchau yn y wybodaeth am y | Gwybodaeth a dealltwriaeth | Mae'r wybodaeth am y | Gwybodaeth gymwys am y | Gwybodaeth a dealltwriaeth | Gwybodaeth a dealltwriaeth |

| Lefel 4 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| (Gwybodaeth am gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc.) | a'r ddealltwriaeth o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y deunydd pwnc. Yn cynnwys deunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol. | cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol, gyda dealltwriaeth ddiffygiol neu arwynebol. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. | gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn y maes pwnc. Gall rhai elfennau fod ar goll. | cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn gywir gyda dealltwriaeth dda o'r maes astudio ond mae diffyg manylder a/neu ehangder. | cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn. | ragorol o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc. | eithriadol a manwl o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol |
| **Sgiliau gwybyddol a deallusol** (Gwerthuso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn.) | Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Fawr ddim neu ddim defnydd o dystiolaeth i gefnogi barn. | Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda gwerthuso arwynebol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Dehongli data'n wan, datblygu dadleuon a barn yn ddiffygiol. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. | Ymgais cyfyngedig at werthuso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol ond â rhai gwallau. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon cynyddol a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o | Gwerthuso da o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol, gyda mân wallau. Gallu cynyddol i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. | Gwerthuso graenus o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol yn gywir. Gallu i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth i lunio barn sy'n briodol a dilys ar y cyfan. | Gwerthuso rhagorol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol yn gywir ac â pheth mewnwelediad. Gallu rhagorol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n briodol a dilys. | Gwerthuso eithriadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn seiliedig ar dystiolaeth. Dehongli data ansoddol a meintiol mewn modd rhagorol. Gallu eithriadol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n hollol briodol a dilys. |

| Lefel 4 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | | Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd. | anghysondeb / camddehongli. | | | | |
| **Sgiliau ymarferol** (Dulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol). | Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol. | Cymhwyso dulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol. | Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu dechnegau, mewn modd sy'n briodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gall ddynodi problemau mewn cyd-destunau penodol a chynnig dulliau sylfaenol neu atebion eraill er gall fod gwallau. | Cymhwyso dulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion sy'n briodol ar y cyfan. | Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol. | Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn graff. Tystiolaeth ragorol o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol. | Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio mewn cyd-destunau ymarferol penodol. Dynodi problemau mewn cyd-destunau penodol mewn modd rhagorol, a llunio atebion / dulliau gwahanol sy'n feddylgar ac yn hollol briodol. |
| **Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer** | Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi- | Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd di-gyswllt. | Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle | Mae'r gwaith yn gydlynol, trefnus a chywir ar y cyfan, mewn | Mae'r gwaith yn gywir, cydlynol, rhugl, wedi'i strwythuro'n dda | Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n | Mae'r gwaith yn gywir, yn eithriadol o gydlynol, yn |

| Lefel 4 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **proffesiynol** (Cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth / gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol o fewn amgylchedd strwythuredig a rheoledig.) | drefn, yn anghywir a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn unigol neu'n rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol. | Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith unigol neu waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaethau u rhannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol. | mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad a/neu gywirdeb mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau u i bobl eraill ond efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o fân wendid. | strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid. | ac yn drefnus. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda mân gwendid achlysurol yn unig. | broffesiynol. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau rhagorol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol gydag awydd i ddatblygu ymhellach. | rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n dda. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eithriadol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol gydag awydd i ddatblygu ymhellach. |

| Lefel 4 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |

**Lefel 5**

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 5 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi datblygu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth, ac o'r modd y datblygwyd yr egwyddorion hynny. Byddant wedi dysgu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion hynny'n fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Bydd ganddynt wybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y maes pwnc, a gallu i werthuso'n feirniadol ddulliau gwahanol o ddatrys problemau. Byddant yn meddu ar ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau. Byddant yn gallu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig i gychwyn ac ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o wybodaeth, ac i gynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad hwnnw. Byddant yn gallu cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, a defnyddio technegau allweddol y ddisgyblaeth yn effeithiol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau cyfredol, ac ennill cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi i dderbyn cyfrifoldebau sylweddol o fewn sefydliadau. Bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

| Lefel 5 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **Ymgysylltu â llenyddiaeth** (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn | Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy | Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro. | Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau | Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. | Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnodi lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson. |

| Lefel 5 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol. | gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi. | | | neu anghysonderau. | | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** (Gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth; gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.) | Bylchau mawr yn y wybodaeth gyda dealltwriaeth anfoddhaol, anfeirniadol o'r deunydd pwnc. Llawer o ddeunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol. Dealltwriaeth ddiffygiol iawn o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth. | Gwybodaeth ddarniog, gyda dealltwriaeth feirniadol arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dealltwriaeth anghyflawn neu rannol ddiffygiol o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth. | Gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol gyfyngedig ond digonol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn y maes pwnc, gydag ychydig o fylchau yn y dewis o ddeunydd. Dealltwriaeth feirniadol gyfyng o'r prif ddulliau ymholi. | Mae'r wybodaeth yn weddol fanwl a chywir. Dealltwriaeth feirniadol dda o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig a'r prif ddulliau ymholi, gyda mân fylchau yn y dewis o ddeunydd. | Mae'r wybodaeth yn weddol helaeth. Arddengys ddealltwriaeth feirniadol gymwys iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gwybodaeth eang a manwl. | Gwybodaeth fanwl, ragorol a dealltwriaeth feirniadol iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. | Gwybodaeth eithriadol o fanwl, a dealltwriaeth feirniadol ragorol o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gall fynd y tu hwnt i theorïau sefydledig. |
| **Sgiliau gwybyddol a deallusol** (Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol; dadl a barn; y | Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion | Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion | Ymgais cyfyngedig at werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at | Rhywfaint o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, er ei fod yn ddisgrifiadol | Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau mewn modd beirniadol, cadarn. Yn ddethol o ran ystod y dystiolaeth a | Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, rhagorol gan arwain at ddadleuon a | Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, eithriadol. Defnyddia dystiolaeth yn |

| Lefel 5 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau.) | mewn modd beirniadol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau neu farn heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy. | mewn modd beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd. | ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol, ag ychydig o anghysondeb / camddehongli neu wedi methu cydnabod yn llawn y cyfyngiadau ar wybodaeth. | mewn mannau. Ymwybyddiaeth gynyddol o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl er gyda thuedd i daeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. | ddefnyddir ac yn cyfuno yn hytrach na disgrifio. Gallu i ddyfeisio dadleuon sy'n dangos ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol, ac i ddefnyddio tystiolaeth mewn modd argyhoeddiadol i gefnogi barn briodol a dilys. | barn rhesymegol a rhesymedig ar sail tystiolaeth. Cydnabyddiaeth eglur o safbwyntiau eraill ac ymwybyddiaeth gref o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth. Gallu i feddwl yn annibynnol ac i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu rhywfaint o afael ar y maes a'r cysyniadau ehangach. | eithriadol o dda i gysylltu syniadau, a chefnogi dadleuon a barn rhesymegol ac argyhoeddiadol iawn. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael eglur ar y maes a'r cysyniadau ehangach. Cydnabyddiaeth dreiddgar o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau. |
| **Sgiliau ymarferol** (Cymhwyso cysyniadau ac egwyddorion | Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau sefydledig, | Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu | Ymwybyddiaeth ddigonol o ddulliau sefydledig, deunyddiau, | Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu | Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu | Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu | Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio gan |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

| Lefel 5 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| gwaelodol sylfaenol yn fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf; defnyddio ystod o dechnegau sefydledig; cynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad.) | deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. | dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. | offer a/neu dechnegau ac yn cymhwyso'r rheini mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. | dechnegau mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. | dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. Tystiolaeth o rywfaint o greadigrwydd. | dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion creadigol, rhagorol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. | ddefnyddio dulliau sefydledig, offer a/neu dechnegau. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig iawn rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau arferol ac anarferol a chynnig atebion creadigol, eithaf soffistigedig y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. |
| **Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer** | Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam- | Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn | Gall gyfathrebu mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y | Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y | Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn cyfrwng | Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn | Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

| Lefel 5 / Categori | METHU 0-29% | METHU FFINIOL 30-39% | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) 40-49% | DA (2.2 / Llwyddo) 50-59% | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) 60-69% | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) 70-84% | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) 85-100% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **proffesiynol** (Cyfleu'n effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau. ) | gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau. | addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd di-gyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml.  Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaethau i rannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau. | gynulleidfa ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol.  Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith.  Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau i bobl eraill ond efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer | gynulleidfa, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid. | sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gyda mân wendid achlysurol yn unig. | cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n fedrus. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gydag awydd i ddatblygu ymhellach. | broffesiynoldeb, sy'n addas iawn ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau gydag awydd i ddatblygu ymhellach. |

| Lefel 5 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | | | cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gyda rhai meysydd o fân wendid. | | | | |

| Lefel 6 |
|---|
| Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 6 dylai fod gan fyfyrwyr wybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'u maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Byddant yn gallu defnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig yn gywir o fewn disgyblaeth, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth gysyniadol i ddyfeisio a chynnal dadleuon a/neu i ddatrys problemau. Dylent fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Dylent allu gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Byddant yn cymhwyso'r dulliau a'r technegau maent wedi'u dysgu i adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Bydd ganddynt y gallu i reoli eu dysgu eu hunain, a manteisio ar adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Byddant yn arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol: arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy; y gallu i ddysgu sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol. |

| Lefel 6 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **Ymgysylltu â llenyddiaeth** (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu | Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. | Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro. | Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau | Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. | Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Sgiliau cyfeirnodi ar lefel uchel, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn broffesiynol. |

| Lefel 6<br>Categori | METHU<br>0-29% | METHU FFINIOL<br>30-39% | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)<br>40-49% | DA (2.2 / Llwyddo)<br>50-59% | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)<br>60-69% | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)<br>70-84% | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)<br>85-100% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ar y cyfan maent yn absennol. | Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi. | | | neu anghysonderau. | | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** (Gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth.) | Bylchau mawr yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth systematig o'r maes pwnc. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth. | Bylchau yn y wybodaeth, gyda dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth. | Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion perthnasol yn y maes pwnc sydd i raddau cyfyngedig, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. | Mae'r wybodaeth yn gymharol fanwl a chywir gyda dealltwriaeth systematig dda o'r maes astudio ac i ryw raddau, o ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. | Mae'r wybodaeth yn gymharol helaeth, gydlynol a manwl. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn o ehangder a manylder safbwyntiau sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. | Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gydlynol, fanwl, ragorol o egwyddorion a theorïau ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth glir o heriau i safbwyntiau sefydledig a chyfyngiadau'r sail wybodaeth. | Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gydlynol, fanwl, eithriadol o egwyddorion a theorïau'r pwnc, wedi'u seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol, soffistigedig a manwl o amwyseddau a'r cyfyngiadau ar wybodaeth. |
| **Sgiliau gwybyddol a deallusol** (Meddwl cysyniadol a beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso ymchwil, | Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu werthuso. | Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a | Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. | Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd | Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu | Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso rhagorol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu | Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso eithriadol wedi'u seilio ar dystiolaeth a ddewiswyd yn |

| Lefel 6 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn); rhesymeg, dadl a barn). | Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy. | barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd. | Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Yn haeru'n hytrach na dadlau achos. | a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth. | i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio barn briodol a dilys ar y cyfan. | anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. Rhywfaint o dystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael ar y maes a'r cysyniadau ehangach. | ddoeth. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig, fanwl. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael ragorol ar y maes a'r cysyniadau ehangach. |
| **Sgiliau ymarferol** (Cymhwyso / defnyddio offer a thechnegau sefydledig yn gywir; cychwyn a chyflawni prosiectau; llunio atebion i ddatrys problemau mewn cyd-destunau | Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y | Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd- | Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad | Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y | Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda | Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. | Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio mewn cyd-destunau ymarferol, anrhagweladwy, gan dynnu'n fedrus ar yr ymchwil |

| Lefel 6 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| cymhleth ac anrhagweladwy.) | cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. | destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. | sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy heb werthfawrogi'r cymhlethdod yn llawn. | cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. | mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Tystiolaeth o beth arloesi a chreadigrwydd. | Mae'r cymhwyso a'r defnyddio'n mynd y tu hwnt i gonfensiynau sefydledig. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion rhagorol. Arloesi a chreadigrwydd yn amlwg. | diweddaraf yn y ddisgyblaeth. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion soffistigedig. Cymathu a datblygu prosesau a thechnegau blaenllaw. |
| **Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol** (Arfer menter a chyfrifoldeb personol; | Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n | Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n | Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle | Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y | Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i | Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac | Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb. Mae'r gwaith yn eithriadol o gydlynol, yn |

| Lefel 6 | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (3ydd / Llwyddo) | DA (2.2 / Llwyddo) | DA IAWN (2.1 / Teilyngdod) | RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-39%** | **40-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| datblygiad proffesiynol; cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau: yn unigol a / neu'n gydweithredol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.) | wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion. | wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol), wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion. | mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid. | cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid. | strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda mân wendid achlysurol yn unig. | wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan reoli gwrthdaro a chan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion ac awydd i ddatblygu ymhellach. | rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda a phroffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain uwch. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion ac awydd i ddatblygu ymhellach. |

| Lefel 7 |
|---|
| Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 7 dylai myfyrwyr allu arddangos: dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar ben blaen eu disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol, neu wedi'u seilio ar y pen blaen hwnnw; dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n gymwys i'w hymchwil neu eu hysgolheictod uwch eu hunain; gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o'r modd y defnyddir technegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth; dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr i werthuso'n feirniadol ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth er mwyn gwerthuso methodolegau a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd. Byddant yn gallu ymdrin â materion cymhleth yn systematig ac yn greadigol, llunio barn gadarn yn absenoldeb data cyflawn, a chyfleu eu casgliadau'n glir i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Byddant yn dangos hunan gyfeiriad a gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys, ac yn gweithredu'n ymreolaethol wrth gynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol neu gyfatebol er mwyn parhau i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a datblygu sgiliau newydd at lefel uchel. Byddant yn datblygu'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd/amgylcheddau proffesiynol cymhleth ac anrhagweladwy; a'r gallu i ddysgu'n annibynnol sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. |

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **Ymgysylltu â llenyddiaeth** (yn cynnwys ymchwil cyfredol, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu | Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. | Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig iawn o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro. | Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau | Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir. | Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Sgiliau cyfeirnodi ar lefel uchel, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn broffesiynol. |

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | ar y cyfan maent yn absennol. | Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi. | | | neu anghysonderau. | | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** (Dealltwriaeth gysyniadol, systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar ben blaen y ddisgyblaeth, neu wedi'u seilio ar y pen blaen hwnnw; dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n gymwys i'w hymchwil eu hunain) | Bylchau mawr yn y wybodaeth ac nid yw'r ddealltwriaeth o'r maes pwnc yn systematig. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o broblemau, mewnwelediad cyfredol neu'r ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth. | Bylchau yn y wybodaeth, gyda dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau, mewnwelediad cyfredol neu'r ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth. | Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion yn y maes pwnc, sydd i raddau ymylol, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Rhywfaint o ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd, ond yn aml heb ei datblygu'n ddigonol. | Mae'r wybodaeth yn gywir ac yn gymharol fanwl. Dealltwriaeth systematig o'r maes astudio wedi'i seilio, i ryw raddau, ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd, er yn achlysurol gall hon fod heb ei datblygu'n ddigonol. | Mae'r wybodaeth â ffocws sydd wedi'i ddiffinio'n dda, ac yn gymharol helaeth, cydlynol a manwl, gydag ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Arddengys ddealltwriaeth dda o ehangder a manylder safbwyntiau cyfoes a sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. | Meistrolaeth ragorol ar faes gwybodaeth cymhleth ac arbenigol. Dealltwriaeth systematig, ragorol o gysyniadau'r pwnc wedi'i seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol iawn o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Ymwybyddiaeth feirniadol o'r modd y mae ffiniau gwybodaeth yn ehangu drwy ymchwil. | Meistrolaeth eithriadol ar faes gwybodaeth cymhleth ac arbenigol. Ymwybyddiaeth eithriadol o feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Dealltwriaeth ragorol o gysyniadau'r pwnc, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol, soffistigedig a manwl o'r modd y mae ffiniau gwybodaeth yn ehangu drwy ymchwil. |
| **Sgiliau** | Gwaith hollol | Gwaith | Ymgais | Rhywfaint o | Gwerthuso / | Gwerthuso / | Gwerthuso / |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **gwybyddol a deallusol** (Gwerthuso'n feirniadol ymchwil a methodolegau cyfredol a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd; llunio barn gadarn yn absenoldeb data cyflawn.) | neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso na beirniadaeth nac ymgais i ddefnyddio dull systematig. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio tystiolaeth gredadwy. | disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso ymchwil a methodolegau mewn modd beirniadol. Datblygiad damcaniaethau a barn yn wan neu'n absennol. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd. | cyfyngedig at werthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Ymgais cyfyngedig i gynnig damcaniaethau newydd. Gall ymdrin â materion cymhleth ond nid yn systematig nac yn greadigol. Peth tystiolaeth i gefnogi barn gynyddol ond gall hon fod heb ei datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Gall haeru'n hytrach na dadlau achos. | werthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, er bod hyn wedi'i ddatblygu ychydig yn annigonol mewn mannau. Cynigia ddamcaniaethau newydd digonol ond cyfyngedig, lle bo'n berthnasol. Gall ymdrin â materion cymhleth ond nid yn gyflawn yn systematig na chreadigol. Gallu i lunio barn yn seiliedig ar ddata (a allai fod yn anghyflawn) ond gyda rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth. | beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, cadarn. Cynigia ddamcaniaethau newydd, lle bo'n briodol. Gall ymdrin â materion cymhleth yn systematig ac â rhywfaint o greadigrwydd. Gallu i lunio barn gadarn yn seiliedig ar ddata (a allai fod yn anghyflawn) | beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, rhagorol. Cynigia ddamcaniaethau arloesol, lle bo'n briodol. Gall syntheseiddio materion cymhleth yn systematig ac yn greadigol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. | beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, eithriadol. Cynigia ddamcaniaethau arloesol, lle bo'n briodol. Synthesis systematig a chreadigol penigamp o faterion cymhleth. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig, fanwl. Potensial i gyhoeddi mewn cyfnodolyn neu wneud ymchwil doethurol. |
| **Sgiliau** | Defnydd | Cymhwyso | Ymwybyddiaeth | Cymhwyso | Cymhwyso ystod | Cymhwyso | Sgiliau |

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| **ymarferol** (Gwreiddioldeb / creadigrwydd wrth gymhwyso gwybodaeth, offer a thechnegau ac wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys mewn sefyllfaoedd proffesiynol cymhleth ac anrhagweladwy; defnydd ymarferol o dechnegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth.) | cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. | dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. | a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan, gyda gwallau achlysurol. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol heb werthfawrogi cymhlethdod cyd-destunau anrhagweladwy'n llawn. | dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn modd priodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, gydag elfennau o wreiddioldeb. | o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Tystiolaeth o wreiddioldeb a chreadigrwydd. | gwybodaeth, dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion rhagorol. Gafael ragorol ar dechnegau sy'n gymwys i'w ymchwil neu'i ysgolheictod uwch ei hun. Dengys wreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth a thechnegau, ac o'r modd y mae dulliau ymholi sefydledig yn creu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth. | cymhwyso eithriadol mewn cyd-destunau cymhleth, anrhagweladwy, gan dynnu'n fedrus ar yr ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion soffistigedig, gwreiddiol. Cymhwyso rhagorol ar dechnegau sy'n gymwys i'w ymchwil neu'i ysgolheictod uwch ei hun. Dengys wreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth a thechnegau, ac o'r modd y mae dulliau ymholi sefydledig yn creu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth, |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| | | | | | | | gan gymathu a datblygu prosesau a thechnegau blaenllaw. |
| **Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol** (Arfer hunan gyfeiriad, ymreolaeth a chyfrifoldeb personol; cynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol; dysgu annibynnol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd; rhuglder mynegiant; dull systematig; eglurder ac effeithiolrwydd o | Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth | Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol), wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n | Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys rai ond nid yr holl sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar | Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion, gyda rhai | Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau cynhwysfawr ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion. | Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan reoli gwrthdaro a chan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl- | Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb. Mae'r gwaith yn hynod o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda a phroffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain uwch. Arddengys sgiliau penigamp ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion ac awydd cryf i ddatblygu ymhellach. |

| Lefel 7 | METHU | METHU | METHU FFINIOL | BODDHAOL (Llwyddo) | DA i DDA IAWN (Teilyngdod) | RHAGOROL (Rhagoriaeth) | EITHRIADOL (Rhagoriaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **0-29%** | **30-44%** | **45-49%** | **50-59%** | **60-69%** | **70-84%** | **85-100%** |
| ran cyflwyniad a threfn.) | broffesiynol i ôl-raddedigion. | ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion. | gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid. | meysydd o gryfder a rhai o fân wendid. | | raddedigion ac awydd cryf i ddatblygu ymhellach. | |

**MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG**